

BLWYDDYN NEWYDD DDA!!

Gobeithio eich bod wedi cael Nadolig da a braf yw'ch croesawu i gyfarfod cyntaf 2025. Mae blwyddyn newydd yn gychwyn newydd ac yn gyfle i gynllunio'r flwyddyn i ddod sy'n rhywbeth sydd angen i ni fel Cangen ei wneud o ran sgysiau a gweithgareddau yn 2025. Mae eich awgrymiadau yn bwysig i ni er mwyn gwneud hyn ac rydym yn eu croesawu bob amser.

Mae'n bleser gennym groesawu ein siaradwr gwadd heddiw, sef **Rhiannon Phillips**, fydd yn siarad am '**O Foddion Cartref i Greu'r GIG**'. Rhiannon yw Archifydd Addysg ac Allgymorth Archifau Gwent, ac mae wedi bod gyda'r gwasanaeth ers 2013. Yn wreiddiol o Abertawe, dechreuodd Rhiannon ei gyrfa fel hyfforddai gyda Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg cyn ymgymryd â'r cwrs Gweinyddu Archifau ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ei rôl bresennol yn cwmpasu gweithio gyda phawb, o ysgolion i brifysgolion, i grwpiau cymunedol lleol; i ymgysylltu â'u casgliadau; cefnogi lleoliadau gwirfoddoli a phrofiad gwaith; creu cynnwys cyfryngau cymdeithasol; a chyflwyno amrywiaeth o sgysiau, teithiau a digwyddiadau eraill.

CINIO NADOLIG 2024

Mwynhaodd 54 o'n haelodau ginio Nadolig ardderchog fis diwethaf. Gweithiodd y staff yn Greenmeadow yn galed iawn i wneud hwn yn ddigwyddiad plerusus, fel bob amser. Roedd



Lynda wrth ei bodd pan enillodd hi'r gacen Nadolig, a wnaed gan Delyn, yn y raffl.

TAITH I FARCHNAD NADOLIG ABERTAWE

Ar y 5ed o Ragfyr, aeth criw o'n haelodau, teulu a ffrindiau ar ein trip blynyddol i farchnad Nadolig. Yn anffodus roedd y tywydd yn ofnadwy. Fe wnaeth hi fwrw'n ddi-baid. Fodd bynnag, fe wnaethom fwynhau marchnad dan do enwog Abertawe a'r cyfle i ddod at ein gilydd i gael cinio a chymdeithasu ag eraill, felly nid oedd y diwrnod yn un diflas o gwbl. Rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn mwynhau cwmni ein gilydd bob amser.

.....

Mark Bailey, Cadeirydd newydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Mae'n bleser gan Gymrodoriaeth Ymddeol y GIG gyhoeddi bod Mark Bailey wedi ei benodi'n Gadeirydd newydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Cymeradwywyd Mark yn ffurfiol fel Cadeirydd newydd Cymrodoriaeth Ymddeol y GIG – y tro cyntaf i rywun nad yw'n aelod gael ei benodi i'r rôl – yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chynhadledd yr Elusen.

Mae Mark yn gyfarwyddwr anweithredol yn Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbytai Addysgu Doncaster a Bassetlaw ac Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Gwasanaethau Cymunedol Swydd Derby. Mae Mark hefyd yn ymddiriedolwr y Bwrdd yn Hosbis Ashgate, Swydd Derby ac yn Gymrawd Gwadd yn Ysgol Reolaeth Prifysgol Cranfield.

Mae ei yrfa fel swyddog gweithredol yn ymestyn dros 30 mlynedd yn y sector preifat gyda chwmni FTSE 100, Rolls Royce plc, a daw Mark â phrofiad helaeth mewn trawsnewid masnachol a gwasanaeth cwsmeriaid i'r Elusen.

Wrth siarad am ei benodiad, dywedodd Mark: "Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i wasanaethu Cymrodoriaeth Ymddeol y GIG fel Cadeirydd y Bwrdd. Ers dros 45 mlynedd mae'r elusen wedi bod yn ffynhonnell werthfawr o gymrodoriaeth barhaus ac wedi creu cyfleoedd ar gyfer profiadau newydd i'r rhai a ddarparodd gofal i ni gyd yn ddyddiol yn eu bywydau proffesiynol.

"Byddaf yn arwain ein Bwrdd i gyflawni ei fwriad strategol o barhau i gynnig gwasanaethau i'n haelodau sy'n diwallu anghenion aelodau presennol ac aelodau'r dyfodol ac yn gwneud hyn mewn modd cynaliadwy, cynhwysol a chydag arloesedd er lles ein haelodau yn ganolog i'n gwaith. Mae fy rôl hefyd yn ymwneud â sut rydym yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid, cyllidwyr a'r sawl sydd yn gwneud y penderfyniadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo ein hachos, ac felly edrychaf ymlaen at dreulio amser fel llysgennad dros ein helusen ac at ei chynrychioli ar y lefelau uchaf lle bo modd."

Ychwanegodd Mike Seaton, Prif Weithredwr Cymrodoriaeth Ymddeol y GIG: "Rwy'n credu bod Mark yn dod â phersbectif ffres, gwyb, ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer

cynaliadwyedd y Gymrodoriaeth yn y dyfodol a sut y gallwn gyflawni ein cynllun pum mlynedd uchelgeisiol. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio ochr yn ochr ag ef ac roedd yn amlwg yn y gynhadledd bod ein haelodau'n awyddus i'w groesawu ac yn gyffrous i weld yr hyn y gallwn ni i gyd ei gyflawni gyda'n gilydd."

Mae Mark yn briod ac yn byw yn nhref farchnad Ashbourne ar gyrion y Peak District yn Swydd Derby gyda dau o blant oed ysgol a mab hynaf sydd yn astudio yn y brifysgol.

Mae wrth ei fodd yn treulio amser gyda theulu a ffrindiau, mae hefyd yn mwynhau treulio amser adref ac yn yr ardd a phob math o chwaraeon. Mae'n gricedwr brwd, a bellach mae'n hyfforddi timau criced grŵp oedran iau a thîm merched a ffurfiwyd yn ddiweddar.

.....

Cysylltiadau â Chartref Gofal Bryn Ivor Lodge

Y llynedd ymwelodd nifer o'n haelodau â thrigolion Bryn Ivor Lodge a hoffai ein haelodau ymweld â nhw unwaith eto. Mae **Barbara Davies** mewn cysylltiad â'r Cydlynnydd Gweithgareddau sy'n awyddus i'r cysylltiadau gyda'n Cangen barhau gan fod nifer o'r trigolion yn gyn-weithwyr GIG. Os oes gennych ddiddordeb yna rhowch wybod i Barbara.

.....

GWIBDEITHIAU 2025

CHICAGO

8 MAI 2025

CANOLFAN Y MILENIWM - SIOE BRYNHAWN

COST £48

TALIAD IONAWR 2025

20 TOCYN AR GAEL

TINA TURNER – THE MUSICAL

12 CHWEFROR 2026

CANOLFAN Y MILENIWM - SIOE BRYNHAWN

COST £44

TALIAD MAWRTH 2025 CYFARFOD

20 TOCYN AR GAEL

CYSTADLEUAETH DARTS YNG NGHANOLFAN BOWLIO DAN DO GLEBELANDS

GWAETHA'R MODD, MAE HWN WEDI'I GANSLO GAN NAD ALL GRWPYAU ERAILL GYMRYD RHAN.

GERDDI HIGHGROVE 2025

BYDD CYFLE I ARCHEBU LLE AR GYFER YMWELIAD Â HIGHGROVE YM MIS CHWEFROR DIM OND 26 LLE BYDD GENNYM. BYDD YR AELODAU SYDD HEB FOD O'R BLAEN YN CAEL BLAENORIAETH. BYDD UNRHYW LEOEDD FYDD AR ÔL YN CAEL EU CYNIG I AELODAU ERAILL AR GOST LAWN. TUA £35 BYDD COST MYNEDIAD I'R GERDDI YNGHYD Â CHOSTAU BWS. BYDD HYN AR GAEL I AELODAU YN UNIG ONI BAI BOD Y LLEOEDD WEB EU LLENWI. PAN FYDD DYDDIAD WEDI'I

Rod How, Prif Swyddog Gweithredu rodhow@nhsf.org.uk

Lucia Hiden, Pennaeth Cyfathrebu, comms@nhsf.org.uk